Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar ffurf hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy gynhadledd fideo ar ddydd Iau, 9 Mai 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Elizabeth Evans, Eryl Evans, Chris James, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Wyn Thomas (Aelod o'r Cabinet)

Swyddogion yn bresennol: Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a Phrif Swyddog Addysg; Mr Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Dirprwy Brif Swyddog Addysg; Mr Mark Gleeson, Rheolwr Corfforaethol - Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Miss Lowri Evans, Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Cymorth ac Atal Porth Cymorth Cynnar; Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau; a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00am- 12:20pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ei fod ar ddyletswydd arall gyda'r cyngor.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dim.

3 Diweddariad ar waith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru (PACC)

Bu i'r Aelod o'r Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Cynghorydd Wyn Thomas, gyflwyno'r adroddiad ynghyd â Mrs Anwen Orrells, Arweinydd Strategol Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru, gan roi diweddariad ar waith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru.

Nodwyd y byddai'r Arweinydd Strategol yn adrodd yn flynyddol ar waith ac effaith y bartneriaeth, fel y cytunwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Ceredigion a Phowys.

Cyflwynwyd y wybodaeth ganlynol:

- Cefndir
- Y Sefyllfa Gyfredol: Adolygiad o flwyddyn ariannol 2023 – 2024
- Cynllunio a blaenoriaethau 2024 – 2025
    - Dysgu ac addysgu effeithiol a myfyriol
    - Amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol
    - Arweinyddiaeth gadarn a diwylliant o hunan-wella parhaus

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi gwaith ac effaith Partneriaid Addysg Canolbarth Cymru. Nodwyd hefyd fod y Bartneriaeth hon wedi cael ei hystyried yn arfer da a rhagwelir y byddai hyn yn cael ei fabwysiadu gan Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

4 Cytundeb Partneriaeth rhwng yr ALl a'r Ysgolion 2024-27

Bu i'r Aelod o'r Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Cynghorydd Wyn Thomas, gyflwyno'r adroddiad ynghyd â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Dirprwy Brif Swyddog Addysg. Hysbyswyd yr Aelodau fod Adran 197 o Ddeddf Addysg 2002 yn ddarpariaeth ar gyfer Cymru'n unig, sy'n rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cytundeb partneriaeth gyda chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod. Pwrpas y Cytundeb Partneriaeth yw gwella a chynnal gwaith partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol ac ysgolion.

Ar hyn o bryd mae'r Cytundeb Partneriaeth yn nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu'r cytundeb a rhaid iddo gael ei adolygu bob tair blynedd.
Roedd y Cytundeb Partneriaeth arfaethedig rhwng yr Awdurdod Lleol a'r ysgolion yn rhedeg o Fedi 2024 tan Awst 2027. Cafodd y Cytundeb Partneriaeth ei gynnwys ar ffurf Atodiad A i'r adroddiad.
Gellir crynhoi'r prif newidiadau i'r ddogfen fel y ganlyn:

- Newidiadau i derminoleg e.e. Dysgu Sylfaen/ Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Newidiadau i ddadansoddi cynnydd disgyblion yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru
- Cynllun Trawsnewid wedi ei addasu yng ngoleuni'r pwyslais ar 3-16 yn y Cwricwlwm i Gymru
- Gwybodaeth ychwanegol o ran Iechyd a Diogelwch a materion yswiriant
- Mae dyletswyddau Cyrff Llywodraethu wedi'u diweddaru i adlewyrchu Canllaw Llywodraeth Cymru ar y gyfraith

- Mae rheoliadau diogelu data wedi'u diweddaru i gyfeirio at reoliadau'r DU yn hytrach na'r rheoliadau Ewropeaidd blaenorol.

Rhoddwyd diweddariad hefyd gan y Prif Swyddog Addysg ar yr hyfforddiant a'r gweithdrefnau a oedd wrthi'n cael eu hadolygu gan yr Awdurdod yn dilyn y digwyddiad brawychus yn Ysgol Dyffryn Aman, Rhydaman yn ddiweddar.

CYTUNWYD i argymell y Cytundeb Partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Ysgolion 2024-27 i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

5 Diweddariad - Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith a Lluosi

Bu i'r Aelod o'r Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Cynghorydd Wyn Thomas, gyflwyno'r adroddiad ynghyd â'r Rheolwr Corfforaethol - Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar Sgiliau Bywyd, Sgiliau Gwaith a Lluosi. Cyflwynwyd cefndir y prosiect ynghyd â'r sefyllfa bresennol, fel a ganlyn:

Ar hyn o bryd mae Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith yn darparu ystod o gymwysterau achrededig lefel 1 a lefel 2 ar gyfer dysgwyr blwyddyn 10 ac 11. Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/2023 cyflawnodd 72 o ddysgwyr achrediadau a mynychodd 81 o ddysgwyr y Cwricwlwm Amgen o bob un o'r saith Ysgol Uwchradd / Ysgolion Gydol Oed yng Ngheredigion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion.
Cynigiwyd lleoliadau profiad gwaith i 36 o ddysgwyr.
Dyma'r cyrsiau a oedd yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan brosiect Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith:

Lluosi
Mae dros 170 o ddysgwyr unigol wedi ymgymryd â'r prosiect Lluosi hyd yma, gyda rhai yn cymryd rhan mewn sawl cyfle i ddysgu.
Gweler isod y gweithgareddau Ymgysylltu, gweithgareddau Dysgu a'r gweithgareddau cyhoeddusrwydd a oedd ar waith ar gyfer y prosiect Lluosi.

Estynnodd y Rheolwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wahoddiad i'r Pwyllgor ymweld â Hyfforddiant Ceredigion yn Aberystwyth. Cytunodd yr Aelodau, a chaiff dyddiad ei drefnu ar gyfer yr ymweliad.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol yn amodol ar dderbyn diweddariad mewn cyfarfod yn y dyfodol ar effaith lleihau cyllid ar y cyrsiau a ddarperir .

6 Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (02.02.24 a 20.03.24)

CYTUNWYD i nodi cofnodion cyfarfodydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel y'u cyflwynwyd, er gwybodaeth.

7 Diweddariad Ffrwd Waith Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu

CYTUNWYD i nodi gwaith y Ffrydiau Gwaith, fel y'i cyflwynwyd.

8 Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Caryl Roberts yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.

9 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD i gadarnhau bod Cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor yn gywir.

Materion yn codi
Dim

10 I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft

CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith Ddrafft fel y'i cyflwynwyd.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 16 Gorffennaf 2024

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____